

Arloesi Agored ar gyfer Cwmnïau Angori yng Nghymru

Creu gwerth trwy arloesi agored a chydweithredol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **Arloesi Agored** yn golygu cydweithio ag eraill y tu allan i'ch sefydliad i gyflawni amcanion cyffredin neu gytûn.

Mae cwmnïau'n chwilio fwyfwy am gyfleoedd i rannu gwybodaeth, i greu syniadau mewn partneriaeth a manteisio ar arbenigeddau a chyfleusterau cyrff eraill.

Mae yna gyfryngau gwych all helpu i wneud i hyn ddigwydd:

- Lansio heriau technoleg
- Cynnal gweithdai rhyngweithiol i ystyried cyfleoedd newydd
- Defnyddio portholau ar-lein i annog rhanddeiliaid i gymryd rhan

Mae **Arloesi Agored** yn caniatáu i arloeswyr rannu'r risg a'r wobwr. Mae'n creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd yn gyflym a'u rhyddhau ar y farchnad.

Gall arwain hefyd at greu marchnadoedd newydd ac addasu technolegau sy'n bod eisoes ac sy'n croesi ffiniau sectorau.

Bu ein cynllun peilot dwy flynedd gydag wyth Cwmni Angori yn gyfle i dreialu dulliau newydd. Gwnaeth bob un fabwysiadu'r dull oedd fwyaf perthnasol iddo, gan greu cyswllt â rhanddeiliaid o fewn diwydiant a'r byd academiaidd nad oedd yn gwybod amdany'n nhw cynt.

Y canlyniadau hyd yma:

- 74 o brosiectau cydweithredol

- Buddsoddi dros £2m mewn prosiectau arloesi
- Cynnal 34 o ddigwyddiadau gan gynnwys y Gynhadledd ColInnovate fyd-enwog www.coinnovate.co.uk

Meddai **Lucy Mason**, Rheolwr Arloesi yn **Wales & West Utilities** "Mae'r peilot arloesi agored wedi rhoi cyfleoedd mawr a gwerthfawr inni gysylltu ag amrywiaeth o sectorau gan gynnwys y sectorau amddiffyn, fferyllol ac electroneg. Rydym wedi dod i adnabod pobl newydd ym myd diwydiant a'r byd academiaidd i ddatblygu atebion a manteisio ar sgiliau ac arbenigeddau i wynebu heriau'r dyfodol."

Meddai **David Simoes-Brown**, Cyd-sylfaenydd **100% Open** "Llywodraeth Cymru yw un o'r prif gyrff cyhoeddus sy'n annog pobl i fanteisio ar Arloesi Agored yn y wlad, gan gysylltu cyflogwyr mawr, cwmnïau bach ac arbenigedd academiaidd â'i gilydd."

Cysylltwch â ni os hoffech drafod:

- Beth gall **Arloesi Agored** ei wneud dros eich busnes chi
- Enghreifftiau ac arferion gorau
- Cael hyd i sefydliadau sydd â galluoedd sy'n cyfateb i'ch anghenion chi, a'ch cyflwyno iddynt.
- Hyrwyddo heriau/gofynion technegol, cyfleoedd i gynnal prosiectau cydweithredol, arbenigedd academiaidd a chysylltiadau ag adnoddau ar-lein.
- Dysgu oddi wrth eraill a'ch cyflwyno i bobl allweddol mewn sefydliadau eraill.

GENERAL DYNAMICS
United Kingdom Limited



Beth am ichi fod y nesaf i fanteisio ar yr hyn y gall **Arloesi Agored** ei wneud ichi.

Cysylltwch â Mark Lewis yn y tîm Arloesi i ddysgu mwy trwy ffonio **0300 061 6048** neu e-bostio mark.lewis2@cymru.gsi.gov.uk



WG28627
© Hawlfraint y Goron 2016



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**